# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Llwyngwian Fawr**

**Dyffryn Ardudwy**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

20 Rhagfyr 2023.

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Llwyngwian Fawr

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal - Gofal Heb Nyrsio i Oedolion. |
| Darparwr Cofrestredig | Achieve Together Ltd. |
| Lleoedd cofrestredig | 4. |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg a Saesneg. |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 20 Rhagfyr 2023. |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb

Mae Llwyngwian Fawr yn cael ei ddarparu â gofal digonol, gan roi sylw i'r datganiad o ddiben. Mae'n darparu cartref i bobl sydd ag anabledd dysgu a chyflwr iechyd meddwl. Mae gan Llwyngwian Fawr dîm o staff sy'n gymwys, yn ymrwymedig ac sy'n meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i ddiwallu anghenion y bobl. Mae cyfraddau cadw'r staff gofal yn dda, ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Mae rheolwr, rheolwr rhanbarthol ac Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gael rheolaeth dros eu dewisiadau bywyd o ddydd i ddydd ac mae eu safbwyntiau'n cael eu parchu. Mae'r staff gofal yn darparu dull gofalu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn ymddwyn fel modelau rôl cadarnhaol. Mae'r bobl yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd cymunedol rheolaidd lle cânt eu hannog i leisio eu barn gyda'u cyfoedion. Mae sesiynau â gweithwyr allweddol yn helpu'r bobl i fynegi eu dymuniadau a'u teimladau ar sail un i un gyda'u gweithiwr allweddol. Mae gwasanaeth eirioli yn cynnig y cyfle i bobl leisio eu barn i rywun sy'n annibynnol ar y cartref. Ymgynghorir â'r bobl am eu gofal a gallant fynegi eu safbwyntiau drwy eu cyfarfodydd adolygu blynyddol, sesiynau ymgynghori â'r staff gofal a gweithwyr iechyd proffesiynol. Mae'r adolygiad yn ystyried safbwyntiau'r bobl, eu teuluoedd, y staff gofal a gweithwyr proffesiynol er mwyn asesu anghenion gofal a chymorth y bobl.

Mae gwasanaethau cymorth gofal ffisiolegol a gofal iechyd meddwl ar gael i'r bobl. Maent wedi'u cofrestru â gwasanaethau cymorth iechyd a gofal cymdeithasol sylfaenol ac arbenigol yn ardal y cartref. Mae'r staff gofal yn deall anghenion emosiynol y bobl, ac mae cyngor proffesiynol allanol ar gael iddynt i'w helpu i weithredu mewn ffordd sensitif a gwybodus.

Mae'r bobl yn treulio amser gyda'r rhai hynny sy'n bwysig iddynt ac sy'n cael dylanwad cadarnhaol ar eu bywydau. Mae'r staff gofal yn cydnabod pwysigrwydd annog cydberthnasau cadarnhaol er mwyn hyrwyddo canlyniadau llesiant y bobl. Mae'r staff gofal yn deall eu cyfrifoldebau o ran helpu'r bobl i gadw mewn cysylltiad â'r unigolion allweddol yn eu bywydau. Mae'r staff gofal yn deall eu cyfrifoldebau diogelu ac mae cyngor a chymorth ar gael iddynt gan y rheolwr, y rheolwr rhanbarthol, yr Unigolyn Cyfrifol a'r awdurdod diogelu lleol.

Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n cefnogi eu canlyniadau llesiant. Mae eu hystafelloedd gwely wedi'u dodrefnu'n addas, wedi'u personoli ac yn cynnig lle iddynt dreulio amser ar eu pen eu hunain. Mae'r bobl yn cael cyfleoedd i gymdeithasu â'i gilydd ac mae cyfleusterau yn y cartref sy'n eu hannog i fod yn annibynnol. Cwblheir gwiriadau iechyd a diogelwch er mwyn sicrhau bod y cartref yn ddiogel i'r bobl ac i'r staff gofal. Mae'r bobl yn brysur yn gofalu am anifeiliaid ac yn cynnal a chadw'r safle. Mae hyn yn darparu amgylchedd cartref diogel a sefydlog i'r bobl i'w helpu i ddatblygu, ffynnu, ymddiried a theimlo'n ddiogel.

## Gofal a Chymorth

Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth i'r staff gofal am y gofal a'r cymorth y cytunwyd arnynt a sut y cânt eu darparu. Mae'r cynlluniau yn rhoi canllawiau clir ac adeiladol ynglŷn â'r unigolyn, ei anghenion gofal a chymorth a'r canlyniadau yr hoffai eu cyflawni. Caiff y cynllun personol ei adolygu'n barhaus ac mae'n galluogi'r bobl, eu teuluoedd, eu cynrychiolwyr a'r staff gofal i fesur cynnydd ac i ystyried a yw'r canlyniadau personol yn cael eu cyflawni. Mae asesiadau'r darparwyr yn cynnwys gwybodaeth am anghenion gofal a chymorth y bobl, eu cydnawsedd a'u heffaith ar y bobl eraill sy'n byw yn y cartref. Caiff nodau canlyniadau personol y bobl eu cofnodi ac ar ôl iddynt gael eu cyflawni, caiff nodau newydd eu creu er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi i lwyddo. Mae'r cofnodion yn dangos bod y staff gofal yn ymgynghori â gweithwyr iechyd proffesiynol pan fydd iechyd cyffredinol y bobl yn newid, er mwyn sicrhau y derbynnir gofal a thriniaeth feddygol yn brydlon. Mae gwasanaethau iechyd meddwl allanol ar gael i'r bobl er mwyn iddynt allu cael triniaethau, cyngor a chymorth, ac awgrymir technegau ymarfer i'r staff gofal i'w helpu i ymateb yn y ffordd orau i ymddygiadau a risgiau. Mae'r staff gofal yn cefnogi'r bobl i fynychu apwyntiadau ac ymgyngoriadau. Caiff meddyginiaethau wedi'u rhagnodi eu storio'n ddiogel, ac mae proses effeithiol ar waith i gofnodi pan gaiff meddyginiaethau eu rhoi.

Mae'r staff gofal yn ymrwymedig i ddatblygu ac maent yn ategu eu gwybodaeth drwy gwblhau hyfforddiant gorfodol ac ychwanegol, er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i ymateb i anghenion ac ymddygiadau'r bobl yn ddiogel. Cadarnhaodd y staff gofal fod cyfleoedd iddynt ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol i feithrin eu gwybodaeth mewn maes penodol er mwyn ymateb i anghenion unigol y bobl. Gwnaethant gadarnhau bod yr hyfforddiant a ddarperir gan y darparwr gwasanaeth yn werthfawr a'u bod yn gallu rhoi damcaniaethau ar waith, sydd wedyn o fudd i'r bobl sy'n cael gofal ganddynt. Gall y gwasanaeth ddarparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg gan fod saith aelod o'r staff gofal yn siarad Cymraeg. Mae canllaw ysgrifenedig ar gael i'r bobl, yr awdurdodau lleoli ac unrhyw gynrychiolwyr, sy'n darparu gwybodaeth am y gwasanaeth.

Caiff y bobl eu cefnogi a'u hannog i ddatblygu eu sgiliau byw'n annibynnol. Maent yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o dasgau gwaith tŷ fel golchi dillad a glanhau eu hystafelloedd gwely a'r cartref. Maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a hamdden fel siopa, gofalu am anifeiliaid, garddio, coginio ac ymweld â lleoedd o ddiddordeb personol, sy'n eu hannog i integreiddio ac i fod yn annibynnol ac i gyflawni eu canlyniadau llesiant. Mae gweithgareddau cymdeithasol ac addysgol yn rhan o drefn ddyddiol y bobl ac mae'r staff gofal yn eu helpu i ddatblygu eu sgiliau ymhellach. Mae digon o staff gofal sy'n meddu ar y wybodaeth, y sgiliau a'r cymhwysedd i ddiwallu anghenion llesiant unigol y bobl. Gwelsom fod y staff gofal yn defnyddio dulliau cymorth iaith a chyfathrebu priodol â'r bobl. Gan fod y prosesau ar gyfer recriwtio a chadw staff yn effeithiol, cynigir parhad gofal da i'r bobl.

## Yr Amgylchedd

Tyddyn bach ar wahân yw'r cartref, wedi'i leoli ar lechwedd chwe erw o faint. Mae'r cartref o fewn pellter cerdded neu daith fer yn y car i bentref â siopau. Gall y bobl fynd i weithgareddau cymunedol mewn trefi a dinasoedd mwy o faint ar drafnidiaeth gyhoeddus. Wrth archwilio'r amgylchedd allanol, cadarnhawyd bod yr ardaloedd o amgylch y cartref yn daclus o ystyried bod anifeiliaid ar y safle. Wrth archwilio amgylchedd mewnol y cartref, cadarnhawyd bod yr ardaloedd a ddefnyddir gan y bobl a'r staff gofal yn ddiogel, yn lân ac yn daclus.

Mae caban pren wrth ymyl y cartref yn cynnig gofod diogel i'r rheolwr a'r staff gofal gwblhau eu gwaith. Mae'r cofnodion cyfrinachol sy'n gysylltiedig â'r bobl a'r staff gofal ar ffurf electronig ac yn cael eu storio'n ddiogel. Mae'r cartref yn ddiogel, caiff y prif ddrws ffrynt ei gloi ac mae allweddi ar gael i'r staff gofal a'r bobl ei agor. Cwblheir gwiriadau iechyd a diogelwch a gwiriadau diogelwch tân yn rheolaidd. Caiff sesiynau goruchwylio ac adolygiadau perfformiad y staff gofal eu cynnal yn y caban pren er mwyn sicrhau bod y trafodaethau yn gyfrinachol. At hynny, mae'r Rheolwr Rhanbarthol a'r Unigolyn Cyfrifol yn cwblhau ymweliadau lle rhoddir rhybudd ac ymweliadau dirybudd â'r cartref er mwyn asesu'r amgylchedd a sicrhau cyfleoedd i'r bobl leisio eu barn am eu cartref.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth yn dda, caiff perfformiad ei fonitro ac mae gan y gwasanaeth gyfeiriad strategol clir o ran sut yr hoffai ddatblygu. Mae'r datganiad o ddiben yn darparu gwybodaeth am nodau ac amcanion, polisïau, gweithdrefnau a phroses sicrhau ansawdd y gwasanaeth. Mae cyfraddau cadw'r staff gofal yn dda, ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Darperir gofal un i un i'r bobl, sy'n golygu eu bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn iach. Mae'r gwasanaeth yn monitro cynnydd y bobl ac yn rhoi cymorth ychwanegol pan fo'i angen.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn bersonol i fonitro perfformiad mewn perthynas â'i ddatganiad o ddiben ac i lywio'r adolygiad o ansawdd y gofal. Mae gan yr Unigolyn Cyfrifol system ar waith sy'n sicrhau pan nad yw'r rheolwr ar gael neu os yw'n absennol am unrhyw reswm, fod system ddirprwyo effeithiol a chymwys ar waith i ddarparu arweinyddiaeth o ddydd i ddydd. Mae'r staff gofal yn helpu'r bobl i gwblhau holiadur sicrhau ansawdd; mae hyn yn galluogi'r rheolwyr i fonitro'r cymorth a ddarperir a'i newid er mwyn adlewyrchu dymuniadau a theimladau'r bobl.

Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn addas o ran y gwasanaeth a ddarperir yn unol â'r datganiad o ddiben. Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth gan dîm sefydlog o staff gofal. Mae'r staff gofal yn defnyddio hiwmor cadarnhaol ac ysgafn gyda'r bobl i'w galluogi i ymddiried ynddynt ac i deimlo'n ddiogel. Mae'r staff gofal yn adnabod y bobl yn dda, ac maent yn rhoi blaenoriaeth i lesiant y bobl. Mae'r bobl yn gyfforddus â'r staff gofal, ac maent yn cael hwyl gyda'i gilydd.

Caiff y staff gofal eu cefnogi gan y rheolwr drwy sgyrsiau dyddiol, sesiynau goruchwylio un i un rheolaidd ac arfarniad blynyddol o'u perfformiad. Mae matrics goruchwylio'r staff gofal yn dangos eu bod yn cael adolygiadau rheolaidd o'u perfformiad. Mae'r staff gofal yn cadarnhau eu bod yn cael cymorth a chyngor da gan eu cydweithwyr a'r rheolwr, sy'n hanfodol wrth ymateb i anghenion ac ymddygiadau newidiol y bobl. Mae matrics hyfforddiant y staff gofal yn dangos eu bod yn cael hyfforddiant gorfodol a dewisol i ategu ac i feithrin eu gwybodaeth er mwyn adlewyrchu anghenion ac ymddygiadau'r bobl.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 36 | Nid yw'r staff gofal wedi cael sesiynau goruchwylio un i un cyson gyda'u rheolwr llinell neu swyddog cyfatebol, neu aelod o staff uwch bob chwarter. Mae angen i'r darparwr sicrhau bod y staff gofal yn cael eu goruchwylio'n gyson ac y caiff hyn ei gofnodi'n ffurfiol. | Cyflawnwyd |
| 73 | Cyn yr arolygiad hwn, nid oedd yr Unigolyn Cyfrifol blaenorol wedi ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd bob tri mis. O ganlyniad, nid oedd modd darparu tystiolaeth bod ymweliadau yn cael eu cofnodi a'u dogfennu. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 15/02/2024